



Huw Irranca-Davies AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddHealth@senedd.wales

14 Chwefror 2022

Annwyl Huw,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau ("y Bil")

Rwyf yn ddiolchgar ichi a'ch cyd-aelodau yn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am gymryd yr amser i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) a osodwyd ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau ("y Bil").

Roeddwn yn falch o weld bod yr aelodau'n cytuno â'r safbwynt a nodais yn y LCM; sef bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a danlinellwyd.

Mae eich adroddiad yn cynnwys un argymhelliad, ac rydych wedi gofyn am ymateb cyn y ddadl yfory. Mae fy ymateb i'ch cwestiynau fel a ganlyn:

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU o ran a yw darpariaethau'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd

Bu inni godi pryderon droeon â Llywodraeth y DU am effaith y Bil hwn ar Gymru a gofyn am fanylion y cymalau sy'n ymwneud ag asesu oedran o fis Mai ymlaen, heb lwyddiant. Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw sicrwydd boddhaol ac ni chyflwynwyd unrhyw ddiwygiadau i fynd i'r afael â'r pryderon yr ydym wedi'u codi.

Yn fwyaf diweddar, yn ôl gohebiaeth a ddaeth i law oddi wrth swyddogion y Swyddfa Gartref ar 8 Chwefror nid yw safbwynt Llywodraeth y DU wedi newid. Hynny yw, bod pob un o gymalau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol ac nad oes angen unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y cymalau sy'n ymwneud ag asesu oedran.

Rwyf wedi ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth y DU deirgwaith i fynegi pryderon am y Bil. Mor gynnar â 26 Gorffennaf 2021, yn fuan ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Cartref i esbonio ein safbwynt ynghylch asesiadau oedran:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

“Your letter states that ‘almost all of [the Bill’s] provisions deal with matters that are reserved to the UK Parliament’ and, consequently, there is no intention to seek Legislative Consent Motions. However, the placeholder clause relating to unaccompanied children (clause 58) is, as yet, undefined and I seek further information from you about the drafting, purpose and effect of this clause. Welsh local authorities have duties under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 which may require them to undertake age assessments to ensure appropriate support is being put in place, irrespective of any Home Office-arranged age assessment which may have already taken place. We have our own ‘Unaccompanied Asylum Seeking Children: Age Assessment Toolkit’ which explicitly states that age assessment is not a scientific process. Radiological methods have been thoroughly and repeatedly discredited over many years. It appears likely that the current proposals could lead to one Government department considering an asylum seeker to be an adult, whereas a Welsh local authority considers that person to be a child. Should this happen, there would be significant safeguarding concerns for that child if they are placed in a House of Multiple Occupation, hotels, or in detention with adult asylum seekers.”

Roedd fy llythyr at yr Ysgrifennydd Cartref dyddiedig 9 Rhagfyr yn llythyr ar y cyd gyda Shona Robison ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth yr Alban. Daeth ateb i law oddi wrth y Gweinidog dros Fudo Diogel a Chyfreithlon, Kevin Foster, AS ar 18 Ionawr 2022.

Yn yr ymateb oddi wrth y Gweinidog Foster, nododd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd mewn perthynas â darpariaethau asesiadau oedran ond ailddatganodd yn glir mail eu safbwynt hwy oedd nad oedd angen cydsyniad deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig Dywedodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda manylion pellach. Er hynny, nid yw'r llythyr wedi dod i law.

Esbonio a yw hi, fel rhan o'i thrafodaethau, wedi ceisio diwygiadau i'r Bil sy'n berthnasol i baragraffau 19 a 20 uchod.

Ni wnaeth y Swyddfa Gartref ymateb i'n pryderon ynghylch asesiadau oedran gan mai mater a gedwir yn ôl yw hwn yn eu tyb hwy. O ganlyniad, nid oedd unrhyw gyfle ar gael inni fynd ar drywydd gwelliannau. Ar ôl i'r LCM gael ei osod, dywedodd y Gweinidog Foster y byddai ei swyddogion yn cysylltu â ni i drafod ymhellach ond hyd yn hyn, nid oes unrhyw lythyr wedi dod i law. Byddwn yn ysgrifennu eto at y Swyddfa Gartref yn dilyn y ddatl i roi gwybod iddynt am y canlyniad.

Nodi a fydd yn defnyddio'r gweithdrefnau datrys anghydfod yn unol â'r pecyn terfynol o ddiwygiadau a gyhoeddwyd yn dilyn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, wedi cytuno i ddefnyddio'r pecyn o ddiwygiadau sydd wedi deillio o'r Cydadolygiad yn sail ar gyfer cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol. Byddwn yn mynd ati nawr i roi'r dull gweithredu hwn ar waith, gan gynnwys trwy'r mecanwaith anghydfodau newydd fel y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Mae'r mecanwaith arfaethedig ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau yn amlinellu hawl pob llywodraeth i atgyfeirio ac uwchgyfeirio anghydfod, ac mae'n gofyn am drefniadau ar gyfer cadeirio ac ysgrifenyddiaeth annibynnol. Mae'n cynnwys rhagdybiaeth o fewnbwn annibynnol, naill ai trwy gyngor neu gyfryngu, a gwell tryloywder i helpu gwaith craffu deddfwrfeydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi ystyriaeth bellach i reoli hyn trwy'r peirianwaith cysylltiadau rhynglywodraethol newydd.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Jayne Bryant, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Gobeithio y bydd yr ateb hwn o gymorth ichi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke above the first letter of "Jane".

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice